



COMISIYNYDD
HEDDLU A THROSEDDU
DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME
COMMISSIONER

Fframwaith Comisiynu Dyfed-Powys

Cyflwyniad

Mae'r fframwaith comisiynu hwn wedi'i gysoni'n uniongyrchol â Chynllun Heddlu a Throsedd Dyfed Powys 2017-2021 (y Cynllun) gyda phob bwriad comisiynu wedi cysylltu â'r blaenoriaethau strategol sydd ynddo.

Mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) Dyfed Powys yn gweithredu fel llais y cyhoedd ar faterion plismona a throsedd. Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am osod y cyfeiriad strategol ar gyfer plismona o fewn ardal yr heddlu. Mae heddlu Dyfed Powys yn gyfrifol am Sir Gâr, Sir Geredigion, Sir Benfro a Phowys. Mae gan yr ardal boblogaeth o dros 488,000, sy'n cynyddu'n sylweddol oherwydd twristiaid bob blwyddyn, ac yn ymestyn dros hanner tir Cymru.

Mae'r blaenoriaethau a osodir yn y Cynllun yn cyfarwyddo penderfyniadau'r CHTh ynglŷn â pha arian sydd ar gael i'r heddlu a'i bartneriaid i leihau trosedd ac anrhefn. Mae'r Fframwaith Comisiynu hwn yn ategu bwriad y CHTh i alinio'r gyllideb gomisiynu â themâu allweddol y blaenoriaethau strategol hynny.

Blaenoriaethau Cynllun yr Heddlu a Throsedd a'r fframwaith comisiynu hwn yw:

- 1) Cadw'n cymunedau'n ddiogel
- 2) Diogelu pobl sy'n agored i niwed
- 3) Gwarchod ein cymunedau rhag bygythiadau difrifol
- 4) Creu cysylltiadau â chymunedau

Egwyddorion Allweddol

Dylid canolbwyntio ar gael gwerth am arian, gwneud yn fawr o adnoddau a sicrhau bod effaith yr arian a werir yn cael ei fesur a'r gwerth yn cael ei asesu.

Gweithredir arfer da o ran caffaeliad. Mae'r CHTh yn disgwyl y bydd pob proses gaffael yn dilyn arfer da ac ar gael i unrhyw ddarparwr, gan gynnwys y sector gwirfoddol. Bydd pob rheolaeth a deddfwriaeth berthnasol hefyd yn cael eu gweithredu gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n cynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Mae'r Cyfarwyddwr Comisiynu wedi dylunio proses gomisiynu dryloyw sydd yn hawdd cael hyd iddi. Comisiynir gwasanaethau sydd o werth is drwy swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (SCHTh). Mae hyn yn galluogi proses dendro

sydd yn syml ac yn gyfeillgar i'r defnyddiwr sy'n lleihau baich y sawl sydd yn cynnig. Mae'r CHTh wedi ymroi i sicrhau bod yr hyn mae'r gwasanaethau yn ei gynnig o'r ansawdd gorau ac yn rhoi gwerth da am yr arian. Er mwyn cyrraedd hyn, mae'r broses werthuso'n canolbwyntio'n gryf ar ansawdd yn ogystal â chost.

Archwilir cyfleoedd ar gyfer comisiynu ar y cyd lle bynnag bo'n bosib er mwyn sicrhau bod buddion a gwerth ychwanegol partneriaethau'n cael eu hystyried yn llawn.

Lle bynnag y bo'n bosib dylid anelu at roi cytundebau tymor canol i dymor hir er mwyn sicrhau cynladwyedd darpariaeth gwasanaeth ac osgoi'r ansefydlogrwydd a ddaw gyda chylchoedd ariannu tymor byr a blynyddol.

Llwybrau comisiynu

Comisiynu uniongyrchol

Er mwyn sicrhau bod y CHTh yn ennill gwasanaethau fydd yn cyfrannu at gyrraedd blaenoriaethau Cynllun yr Heddlu a Throsedd, bydd y CHTh yn tendro neu greu cytundeb yn uniongyrchol gyda darparwr. Cyflawnir hyn drwy gyfathrebu agored lle estynnir gwahoddiad i gynigwyr dendro am wasanaethu sydd yn cyrraedd y nodau a'r canlyniadau sydd eu hangen o fewn manyleb gwasanaeth penodol.

Comisiynu ar y cyd

Lle bo'n briodol, bydd y CHTh yn gweithio gyda phartneriaid a darparwyr i sicrhau'r canlyniadau mwyaf effeithiol a chost effeithiol o gyflawni'r gwasanaeth. Gellir gwneud hyn drwy strwythurau comisiynu sefydledig yn ogystal â rhai sydd ar y gweill gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol.

Cymorthdaliadau

Bydd y CHTh yn peri bod rhaglenni cymhorthdal amrywiol ar gael. Bydd rhai yn agored i bartneriaid gan gefnogi eu gwaith at nodau ar y cyd ar draws ffiniau cyfundrefnol a daearyddol. Bydd rhai eraill yn agored i elusennau, sefydliadau gwirfoddol a grwpiau yn y gymuned, gan anelu at wella cymunedau lleol a bywydau'r bobl sy'n byw o fewn y cymunedau hynny.

Rhoddir cymorthdaliadau ar sail meini prawf gosod sydd yn cynnwys ystyried lles y gymuned, tystiolaeth bod angen cael y prosiect, hygyrchedd, sut mae'r prosiect yn ateb y blaenoriaethau a'r gwerth am arian.

Arall

Yn ogystal â hyn, ceir cyfleoedd gydol y flwyddyn i gynnig am gronfeydd cystadleuol amrywiol a gyhoeddir gan y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Sefydlir banc prosiectau gan y Rheolwr Ariannu Allanol i hel syniadau ar gyfer prosiectau posib ac i adnabod meysydd lle ceir tystiolaeth bod yna angen.

Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd mwyaf o bob cyfle i ddatblygu gwasanaethau lle bynnag y bo'n briodol.

Bydd y CHTH yn dal contractau/cytundebau sydd yn nodi manylion a gwerth y canlyniadau a gomisiynir ar gyfer pob mecanwaith ariannu gyda'r sefydliadau llwyddiannus.

Monitro Gwasanaethau a Gomisiynwyd a Chanlyniadau

Bwriad CHTH Heddlu Dyfed-Powys yw comisiynu gwasanaethau a all gyflawni a dangos canlyniadau penodol. Cyfrifoldeb y CHTH bydd monitro cynnydd pob gweithgarwch a gomisiynir yn erbyn canlyniadau arfaethedig. Gwneir hynny drwy Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Datblygir canlyniadau ar gyfer pob cytundeb a roddir ar sail nodau ac amcanion y gwasanaeth. O dan y canlyniadau cytunedig mae amrywiaeth o ddangosyddion perfformiad sy'n cynnwys mesuriadau ansoddol a meintiol, mesuriadau adferol a mesuriadau talu yn ôl canlyniadau. Seilir y rhain i gyd ar y cytundeb gwasanaeth. Trafodir y dangosyddion perfformiad gyda'r darparwr i sicrhau eu bod o fewn cyrraedd. Disgwylir i ddarparwyr weithio gyda'r Comisiynydd gydol y cytundeb er mwyn datblygu fframwaith y canlyniadau mesuradwy ar gyfer y Gwasanaethau ymhellach. Mae cael y mesuriadau hyn yn eu lle yn galluogi'r CHTH i ddal darparwr y gwasanaeth yn gyfrifol am gyflwyno'r prosiect yn llwyddiannus a monitro cynnydd tra bydd y cytundeb mewn grym.

Adrodd yn ôl

Mae monitro ac adrodd yn ôl deallusol yn golygu bod modd gweithio'n agos gyda'n darparwyr gwasanaeth i sicrhau bod y wybodaeth a geisir yn realistig yn ôl bwriad/cyd-destun comisiynu ynghyd â chwmpas a graddfa amser y prosiect.

Seilir dulliau monitro systemau ar y defnydd a fwriedir ar gyfer y wybodaeth –naill ai i ddeall effaith gyfan y gwasanaeth a gomisiynir, datblygu a gwella arfer, dylanwadu ar bolisi cyhoeddus, neu i baratoi ar gyfer comisiynu at y dyfodol.

Bydd monitro gwasanaethau'n darparu modd i'r CHTH ddeall llwyddiant a methiant, yr hyn sydd yn gweithio'n dda a'r hyn sydd ddim yn gweithio'n dda. Yn ogystal â deall y gwahaniaeth a wneir gan y gwasanaethau.

Cynhelir cyfarfodydd monitro perfformiad chwarterol gyda phob darparwr gwasanaeth. Gofynnir i bob darparwr ddal a mesur dangosyddion perfformiad ar eu systemau eu hunain yn fewnol, gan sicrhau eu bod yn atebol ac mewn rheolaeth o'u monitro / adrodd yn ôl eu hunain.

Rheoli Risg

Diffinnir ymrwymiadau darparwyr gwasanaeth parthed cyflogi staff, diogelu a deddfwriaeth berthnasol arall yn glir o fewn dogfennaeth gytundebol. Cynnwys hyn gymalau am indemniad ac yswiriant.

Mae darparwyr gwasanaethau yn rheoli eu risg eu hun gydol oes y cytundeb a diweddarau'r CHTH am unrhyw faterion a godir ac sydd yn debygol o effeithio ar ganlyniad y cytundeb.

Mae gan y Comisiynydd gyfrifoldeb statudol i gynrychioli llais dioddefwyr. Byddai effaith peidio â chomisiynu gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr yn torri'r cyfrifoldeb hwn ac yn effeithio'n negyddol ar lefelau hyder y cyhoedd yn ogystal â chyflwyniad y gwasanaethau. Yn yr un modd mae effaith peidio â sicrhau darparu gwasanaethu i ddelio â phryderon ehangach y gymuned yn debygol o gynyddu trosedd, anrhefn a throseddau yn ogystal â chael effaith negyddol ar ansawdd bywyd o fewn y cymunedau hynny yn ogystal â hyder y cyhoedd.

Cyllideb

Mae cyllideb gyfan ar gyfer comisiynu 2019/20 yn £1,453,587¹. Daw rhan o hyn drwy gymhorthdal gan y Gweinidogaeth dros Gyfiawnder at bwrpas comisiynu gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr. Gwerth y cymhorthdal hwn ar gyfer 2019/20 yw £596,891. Oherwydd yr ansicrwydd ynglŷn ag ariannu at y dyfodol, nid yw'n bosib bod yn fanwl gywir am faint y gyllideb gomisiynu tu hwnt i 2019/20.

Mae'r adran isod yn nodi'r dyraniadau ar draws gwahanol feysydd gwaith. Nodwch y gall hyn newid yn ystod y flwyddyn.

¹ Noder bod hyn yn cynnwys costau staff yn ogystal â chostau ar gyfer darparu gwasanaethau uniongyrchol

Maes Comisiynu	Blaenoriaeth Cynllun Heddlu a Throseddu	Mecanwaith Ariannu	Swm 2019/20 (£)	Sylw
Camddefnyddio Sylweddau	1, 2	Comisiynu ar y cyd	300,000	<ul style="list-style-type: none"> Darparu gwasanaethau triniaeth ar gyfer cam-drin sylweddau i'r sawl sydd yn dod mewn i'r system gyfiawnder troseddol o'r newydd Profi am gyffuriau mewn dalfeydd
Ymddygiad Gwrthgymdeithasol	1, 2	Uniongyrchol	130,000	Darparu gwasanaethau ar gyfer cefnogi, cyfeirio a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol
Atal Troseddu gan Ieuenctid	1, 2	Cymorthdaliadau	194,122	Adnabod y sawl sydd mewn perygl o gyflawni trosedd a darparu pecynnau cefnogaeth pwrpasol
Gwasanaeth Cyfeirio Dioddefwyr	1, 2	Uniongyrchol	241,579	Darparu gwasanaeth cyfeirio ar gyfer pob un sydd yn dioddef trosedd sydd yn byw o fewn Dyfed-Powys
Bodlonrwydd Dioddefwyr	3	Uniongyrchol	20,000	Arolygon dros y ffôn ar gyfer y sawl sydd yn dioddef oherwydd trosedd yn ôl gorchymyn y Swyddfa Gartref.
Cam-drin yn y Cartref	1, 2	Comisiynu ar y cyd	200,000	Gwasanaeth i gefnogi dioddefwyr cam-drin yn y cartref

Cam-drin Rhywiol	1, 2	Uniongyrchol	73,570	<ul style="list-style-type: none"> • Darparu cefnogaeth argyfwng 24 awr i ddiodefwyr ymosodiad rhywiol gyda gofal clinigol a fforensig a chefnogaeth barhaus • Darparu cefnogaeth i ddiodefwyr cam-drin rhywiol sydd yn blant
Plant Dan Fygythiad o Gamfanteisio Rhywiol	1, 2	Uniongyrchol	79,595	Darparu gwasanaeth drafodaeth a chymodi annibynnol i blant a phobl ifainc yr adroddir eu bod ar goll.
Cyfiawnder Adferol	1, 2, 4	Partneriaeth gyda Chwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru	25,000	Darparu gwasanaethau Cyfiawnder Adferol i ddiodefwyr
Cynllun dargyfeiriol ar gyfer troseddwy	1, 2, 3	Uniongyrchol (Cynllun Peilot)	95,561	Darparu gwasanaeth cymorth dargyfeiriol a brysbennu ar gyfer troseddwyr lefel is.